

Gweithdrefn Lawfeddygol dan Anaesthetig Leol

Croeso i'r Adran ac i'r Ysbyty

Cyn eich apwyntiad

1. Cewch fwyta ac yfed fel yr arfer.
2. Bydd angen i chi drefnu bod rhywun yn mynd â chi adref ar ôl yr apwyntiad.
3. Dewch ag unrhyw dabledi, neu gyffuriau eraill rydych yn eu cymryd gyda chi.
4. Peidiwch â gwisgo colur ar eich wyneb.

Yn ystod eich apwyntiad

1. Bydd eich llawdriniaeth yn cael ei gwneud yn uned theatr yr adran.
2. **Cyn eich apwyntiad cewch gais i lofnodi ffurflen gydsynio a** gofynnwn i chi ei darllen yn ofalus. Mae'n golygu eich bod wedi deall yr hyn rydyn ni'n bwriadu ei wneud, a'ch bod yn cytuno i gael y llawdriniaeth gyda'r anaesthetig angenrheidiol.

Sylwch y bydd angen i riant neu warcheidwad cyfreithiol lofnodi ffurflen gydsynio ar gyfer plant dan un ar bymtheg oed. Gofynnwch gynifer o gwestiynu ag y dymunwch am y llawdriniaeth cyn llofnodi.

3. Bydd ambell gwestiwn yn cael ei ofyn i chi ar gyfer y broses nyrsio.
4. Byddwch wedyn yn derbyn sbectol amddiffyn i'w gwisgo a rhoi tyweli gwyrdd diheintiedigamdanoch.
5. Yna, bydd y llawfeddyg yn rhoi anesthetig lleol i ladd y teimlad yn yr ardal sy'n cael ei thrin cyn y llawdriniaeth.

